ICT Curriculum Team

Tîm Cwricwlwm TGC

Uned: Trafod Data

TGCh Blwyddyn 2

Trosolwg o'r Uned hon:
Mae'r plant yn gwybod bod CD-ROMs, cyfrifiaduron a'r Rhyngrwyd yn dal llawer iawn o wybodaeth. Maent yn gallu defnyddio TGCh i ddod o hyd i'r atebion i gwestiynau penodol, gofyn eu cwestiynau eu hunain a rhagweld y math o atebion. Maent yn gallu defnyddio Dewislenni a thechnegau Chwilio i ddod o hyd i wybodaeth o ffynonellau priodol ac yn datblygu eu hymwybyddiaeth o fathau gwahanol o gwestiynau; sut y gellir eu gofyn a sut y gellir defnyddio TGCh i'w hateb.

Maent yn gallu cwblhau taflen cipio data a throsglwyddo data i mewn i gronfa ddata a baratowyd a dysgu am bethau drwy ofyn cwestiynau a chynllunio graffiau a phictogramau. Maent yn gallu dod o hyd i atebion penodol o ddata wrth gwestiynu a chwilio a gwybod pam y gall fod yn haws defnyddio TGCh i ddangos gwybodaeth gan ddefnyddio graffiau amrywiol na gwneud graffiau gan ddefnyddio dulliau traddodiadol. Maent yn dysgu nad yw rhai o'r rhaglenni y maent wedi eu defnyddio hyd yn hyn i gyflwyno data yn gallu rhoi'r atebion i rai cwestiynau penodol. Maent yn dechrau sylweddoli bod cyfyngiadau gan raglenni ac mae gwybodaeth o'r offer a'r technegau i chwilio a lleoli gwybodaeth sy'n ein helpu i ddod o hyd i'r ateb i gwestiynau.

Disgwyliadau ar ddiwedd yr uned hon:

Bydd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu: deall bod TGCh yn gallu ein helpu i ddod o hyd i wybodaeth o ffynonellau priodol. Maent yn gallu lleoli gwybodaeth gan ddefnyddio Dewislenni a thechnegau Chwilio syml ac yn gwybod bod rhaglenni gwahanol ar gyfer casglu a chyflwyno data. Maent yn gallu mewnbynnu data i gronfa ddata a baratowyd a gofyn cwestiynau i ddod o hyd i atebion.

Bydd rhai disgyblion ond yn gallu: Mewnbynnu data gyda help i gronfa ddata a baratowyd a bydd angen help i gynllunio graffiau a dod o hyd i atebion i gwestiynau.

Bydd rhai disgyblion hefyd yn gallu: adeiladu gwahanol fathau o gwestiynau i bwrpasau gwahanol a defnyddio Bwydlenni a thechnegau Chwilio i ddod o hyd i wybodaeth o ystod o ffynonellau. Maent yn dechrau dangos dealltwriaeth bod cyfyngiadau gan raglenni ac yn gwneud dewisiadau yn y modd y maent yn defnyddio'r offer i ddod o hyd i wybodaeth a chynllunio graffiau.

ALLWEDD:

Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol (PSDWBCD)	Datblygiad yr Iaith Gymraeg (WLD)	Datblygiad Creadigol (CD)
Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (LLC)	Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd (KUW)	Chwarae yn yr Awyr Agored (**OP**)
Datblygiad Mathemategol (**MD**)	Datblygiad Corfforol (PD)	Chwarae Rôl (**RP**)

PSEWBCD **LL** **MD** **WLD** **KUW** **PD** **CD** **OP** **RP**					
Asesiad yr Athro/Athrawes: *Dylai'r sgiliau a ddangosir gan y plant ffurfio rhan o asesiad parhaus. Dylid olrhain a chofnodi cynnydd disgyblion yn unol â pholisi asesu'r ysgol a'i ddefnyddio i gyfrannu at gynllunio yn y dyfodol. Darperir taflenni cofnodi ar gyfer ysgolion fel rhan ddewisol o'r Cynllun gwaith hwn.* Recording Sheet Pupil Self Assessment					
Blwyddyn 2	**Dod o Hyd i a Dadansoddi Gwybodaeth**				
Trafod Data					
Sgiliau TGCh	**Meysydd Dysgu**	**Gweithgaredd a Awgrymir**	**Geirfa**	**Adnoddau**	**Sgiliau ar draws y Cwricwlwm**
Gwybod bod CD-Roms, Cyfrifiaduron a'r Rhyngrwyd yn dal llawer iawn o wybodaeth.	PSDWBCD L L C W L D K U W	Trafod gyda'r plant, sut y maent yn gallu defnyddio llyfrau i ddod o hyd i wybodaeth. Dangos llyfrau gwybodaeth gyda mynegeion i'r plant a'u helpu i ddod o hyd i'r adrannau perthnasol. Dangos CD-ROM/Rhyngrwyd i'r plant ac esbonio eu bod yn cynnwys cymaint o wybodaeth â sawl llyfr mawr. Defnyddio gwefan addas i ddangos i'r plant sut i lywio i ddod o hyd i wybodaeth. (*Tynnu eu sylw at nodweddion cyffredin fel saeth yn ôl/ymlaen, eicon hafan, a dewislen.)*	Gwybodaeth CD-Rom Llywio Mynegai Gwe fyd eang	Meddalwedd CD Rom Cyfrifiadur Rhyngrwyd	

Sgiliau TGCh	Meysydd Dysgu	Gweithgaredd a Awgrymir	Geirfa	Adnoddau	Sgiliau ar draws y Cwricwlwm
Yn gallu defnyddio Offer Chwilio a Dewislenni i ddod o hyd i wybodaeth o ffynonellau priodol.		Mae'r plant yn lywio drwy CD Rom i dod o hyd i wybodaeth ac yn gallu dangos sut i ddod o hyd i wybodaeth gan ddefnyddio dewislenni. Gofyn i'r plant pa eitem yn y ddewislen y dylid ei dewis i ddod o hyd i wybodaeth arbennig e.e. dewis 'glan y môr' i leoli gwybodaeth am grancod. Defnyddio gwyddoniadur CD-ROM i ddangos sut i ddod o hyd i wybodaeth gan ddefnyddio'r mynegai. Dangos sut i ddychwelyd i'r ddewislen/tudalen hafan. Gofyn i'r plant ddefnyddio'r mynegai i ddod o hyd i wybodaeth benodol. Defnyddio gwyddoniadur CD-ROM i ddangos sut i ddod o hyd i wybodaeth gan ddefnyddio gair allweddol. Gofyn i'r plant awgrymu rhai geiriau i roi tro arni. Camdeipio un gair yn fwriadol i ddangos bod rhaid sillafu geiriau'n gywir. Dangos na adnabyddir geiriau fel 'pws'. Esbonio y gellir dod o hyd i rai eitemau gan ddefnyddio mwy nag un gair, e.e. *gellid dod o hyd i wybodaeth am lewod drwy ddefnyddio 'Affrica' neu 'sw'.* Gofyn i'r plant weithio mewn parau i ddefnyddio CD-ROM neu wefan i ddod o hyd i luniau anifeiliaid *e.e. anifeiliaid â ffwr, anifeiliaid sy'n byw yn y môr etc.* Gofyn iddynt ddefnyddio gair allweddol i chwilio yn ôl enw neu briodoledd.	Dewislen Gwybodaeth Dangos CD-Rom Gwybodaeth Cronfa Ddata Offer Chwilio	Gwyddoniadur CD-ROM Encyclopaedia Cyfrifiadur Sebastian Swan's Safe Search Site	

Sgiliau TGCh	Meysydd Dysgu	Gweithgaredd a Awgrymir	Geirfa	Adnoddau	Sgiliau ar draws y Cwricwlwm
Yn gallu dod o hyd i atebion penodol wrth gwestiynu a chwilio.		Fel rhan o brosiect dosbarth ar anifeiliaid sy'n byw mewn amgylcheddau gwahanol, dewis dau fan gwrthgyferbyniol, e.e. pwll dŵr a chae. Atgoffa'r dosbarth am y gwahanol ffyrdd o chwilio am wybodaeth ar CD-ROM. Gofyn i'r plant weithio mewn grwpiau bach i ymchwilio cynefinoedd gwahanol ar wyddoniadur CD-ROM neu wefan. Atgoffa'r dosbarth i ddefnyddio'r botwm yn ôl i fynd yn ôl os ydynt yn mynd ar goll. Gofyn iddynt ysgrifennu brawddeg am yr anifeiliaid y daethant o hyd iddynt. Dylai'r frawddeg gynnwys y gair allweddol a ddefnyddiwyd ganddynt. Gofyn i'r dosbarth gymharu chwilio am wybodaeth ar CD-ROM/Rhyngrwyd â chwilio am wybodaeth mewn gwyddoniaduron argraffedig. Gofyn iddynt ystyried p'un sydd gyflymaf neu fwyaf cyfleus.	Amgylcheddau Gwyddoniadur	Gwyddoniadur CD Rom Gwyddoniadur seiliedig ar y we	
Yn gwybod y gellir defnyddio cronfa ddata i fewnbynnu gwybodaeth.		Dangos cronfa ddata orffenedig syml i'r plant a dangos sut mae'r offeryn chwilio yn caniatáu i gwestiynau penodol gael eu hateb. Annog y plant i ofyn eu cwestiynau eu hunain a gweld a ydynt yn gallu defnyddio'r offeryn chwilio i ddod o hyd i'r atebion. Darparu help cof syml i ddangos y broses o ofyn cwestiynau gan ddefnyddio'r offeryn chwilio. Gwneud rhestr fer o gwestiynau o'r rhai a awgrymwyd gan y plant gyda modd syml o recordio eu hatebion. Dangos cronfa ddata a baratowyd i'r plant ar bynciau fel cartrefi, ein hunain; fy anifeiliaid anwes, hoff bethau etc. dangos y dewisiadau ar gyfer pob maes a sut i fewnbynnu data.	Cronfa Ddata Gwybodaeth	Cronfa Ddata Arteffactau perthnasol	

Sgiliau TGCh	Meysydd Dysgu	Gweithgaredd a Awgrymir	Geirfa	Adnoddau	Sgiliau ar draws y Cwricwlwm
Yn gallu cwblhau taflen cipio data.		Creu holiadur syml gyda'r plant am y gronfa ddata. Cynhyrchu copi seiliedig ar bapur mewn ffurf taflen cipio data i bob plentyn ei gwblhau. Gallai fod yn ffurf lluniau i roi cylch o'u cwmpas neu eiriau i'w hysgrifennu gan ddibynnu ar allu'r plant.	Holiadur	Taflen cipio data	
Yn gallu trosglwyddo data o daflen cipio data i mewn i gronfa ddata a baratowyd.		Gan weithio mewn parau, mae'r plant yn bwydo'r wybodaeth o'u taflen cipio data i mewn i'r gronfa ddata ac yn ei chadw fel cronfa ddata dosbarth. Defnyddio'r gronfa ddata a gwblhawyd i ddod o hyd i gofnodion plant unigol a siarad amdanynt.	Holiadur Cronfa Ddata Offer Chwilio	Cronfa ddata a baratowyd IWB	
Yn gallu defnyddio TGCh i ddod o hyd i atebion i gwestiynau penodol.		Dangos sut i greu siartiau bar a neu bictogramau i'w helpu i ateb cwestiynau syml. Dangos i'r plant sut i greu ffurf tabl *(os yw meddalwedd yn caniatáu)* a'i ddefnyddio i ateb cwestiynau syml. Dangos i'r plant sut i ddefnyddio'r offeryn chwilio i ateb cwestiynau syml. Gwneud rhestr o gwestiynau gwahaniaethol i'w gofyn am y gronfa ddata. (*Gall cwestiynau a baratoir ar gardiau o liwiau gwahanol fod yn ffordd effeithiol o ganiatáu i blant ddewis lefel briodol o gwestiwn neu dasg.)* Gallai enghreifftiau gynnwys; Cynlluniwch graff i ddangos y mathau o dai. Faint o blant sy'n byw mewn byngalo? Faint o gartrefi'r plant sydd â drws brown? Faint o dai sydd HEB garej? Pa blant sy'n byw mewn tŷ ar wahân?	Cronfa Ddata Pictogramau Siartiau Bar Cwestiynau Graffiau	Cronfa ddata a gwblhawyd Bwrdd gwyn rhyngweithiol	

Sgiliau TGCh	Meysydd Dysgu	Gweithgaredd a Awgrymir	Geirfa	Adnoddau	Sgiliau ar draws y Cwricwlwm
Yn gallu gofyn cwestiynau a rhagweld y math o ateb.		Trafod gyda'r plant y math o wybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol wrth edrych ar dai (ond byddai unrhyw bwnc yn gwneud y tro). Gofyn i'r plant awgrymu cwestiynau i ddod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen. Cofnodi'r cwestiynau hyn fel bod y plant i gyd yn gallu eu gweld. A oes mwy o bobl yn bwy mewn tai o friciau na cherrig? Pwy sy'n byw mewn tŷ gyda simnai? Faint mwy o blant sydd â drws brown yn lle un coch? etc. Annog plant i ddefnyddio eu cwestiynau eu hunain a gweld a ydynt yn gallu defnyddio'r technegau chwilio i ddod o hyd i'r atebion. (Gall bod â phapur a phensil wrth y cyfrifiadur annog plant i ysgrifennu eu cwestiynau ar gyfer eraill.)	Gwybodaeth Cwestiynau		
Yn gwybod pam y gall fod yn well defnyddio TGCh i ddangos gwybodaeth drwy ddefnyddio graffiau amrywiol.		Gan ddefnyddio'r cronfeydd data a gwblhawyd yn flaenorol, gall y plant gynhyrchu cyfres o gronfeydd data a'u cymharu â graffiau â llaw ar yr un pwnc.	Graffiau Data	Cronfa ddata a baratowyd